

# Amddiffyn Plant

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yn mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gydgysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogytal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

## **Canllawiau Amddiffyn Plant yr Ysgol**

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeleustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

## **Pryderu am blentyn**

Cysylltwch â'r isod os ydych yn pryderu bod plentyn yn dioddef niwed neu esgeleustod neu'n cael ei gam-drin. Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ymchwilio a gweithredu i warchod y plentyn, cynnig cefnogaeth a chynghor i helpu teuleuoedd i gael cymorth angenrheidiol.

## **Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Ieuan Gwynedd yw:**

### **Cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol.**

Enw: Mrs Mrs Elin Jones-Evans, Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain.  
Rhif ffôn cyswllt – 01341 450636

### **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Enw : Mrs Nia Wyn Jones, Fronalchen, Dolgellau.  
Rhif ffôn cyswllt – 01341 422549

### **Aelod o'r Llywodraethwyr**

Enw: Mrs Aranwen Manzini-Hughes, Penarddwnion Fawr, Rhydymain  
Rhif ffôn cyswllt – 01341 450253

### *Person cyswllt yn yr awdurdod*

Enw: Nia Brown, Swyddog Lles,  
Rhif ffôn cyswllt – 07554115753

neu

Drwy'r Tim Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol  
01758704455 (9:00—17:00, Llun-Gwener)  
Ffôn tu allan i oriau: 01248 353551 ( unrhyw amser arall ac ar Wyl y Banc)

E-bost: [cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk](mailto:cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk)

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.